Dyddiad	Lleoliad	Yn bresennol	Cwestiwn	Ymateb
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Pam mae Ysgol Uwchradd Cei Connah yn yr adolygiad pan mai dim ond 10% o leoedd dros ben sydd ganddi?	Mae'r adolygiadau'n seiliedig ar ardaloedd, cafodd yr opsiynau eu ffurfio gan gynghorwyr a edrychodd ar ysgolion cyfagos. Ysgol Uwchradd Cei Connah yw'r unig ysgol yn yr ardal hon a allai gynnal canolfan ôl -16. Gallai'r ganolfan ddarparu ar gyfer ysgolion eraill yn yr ardal.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Pam nad yw Ysgol Uwchradd Penarlâg wedi'i chynnwys yn yr ardal?	Teimlodd cynghorwyr nad oedd llawer o botensial ar gyfer datblygu ar safle Penarlâg. Mae gan Ysgol Uwchradd Cei Connah lawer o botensial o ran datblygu ac mae hefyd yn agos i Goleg Glannau Dyfrdwy.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	A gafodd materion traffig o fewn yr ardal eu hystyried?	Pe bai'r dewisiadau'n cael eu symud ymlaen edrychid ar sefyllfa'r traffig yn feirniadol ac yn ofalus ar gyfer dewisiadau eraill, efallai gan ystyried pont Sir y Fflint fel llwybr.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Sylw'r Llywodraethwyr - Eisiau i'r rhieni wybod nad yw pob un o'r 70 o gynghorwyr yn cytuno gyda'r dewisiadau a byddant yn protestio yn eu herbyn. Diffyg dealltwriaeth ar gyfer cludo, ac nad yw pwyntiau ysgogi demograffig yn effeithio ar Gei Connah. Nid edrychir ar ysgolion eraill megis Ysgol Uwchradd y Fflint, eisiau gwrthod y dewisiadau cyn gynted ag y bo modd.	NSM - Cynhaliwyd datblygu dewisiadau gan weithgor a oedd i gyd yn gynghorwyr lleol yn yr ardal ac nid gan swyddogion y cyngor a'r farn yw os nad yw'r dewisiadau'n addas dylid meddwl ymhellach ynglŷn â hyn. Mae cyllid ar gael ar gyfer y ganolfan nad ydym eisiau ei golli. Mae Dewis 4 ynglŷn â chau a chyfuno yn fater technegol. Gwneir penderfyniadau gan y cyngor ynglŷn â dewis sydd i'w ddwyn ymlaen.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Beth yw'r lefel dderbyniol ar gyfer gwarged fel canran?	Y cyngor cenedlaethol yw na ddylid bod dros 10% o leoedd dros ben yn gyffredinol. Dylai canran dros 25 ysgogi adolygiad yn unol â Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Sir y Fflint sydd hefyd yn awgrymu nifer lleiaf o 120 ar gyfer darpariaethau ôl-16. Mae canllawiau cenedlaethol, fodd bynnag, yn awgrymu nifer

				lleiaf o 150 er mwyn darparu darpariaeth wydn. Mae'r Strategaeth hefyd yn awgrymu 600 o ddisgyblion o dan 16 oed er mwyn rhoi darpariaeth gynaliadwy.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Sut mae'r dewisiadau wedi'u gosod i gyflawni?	Cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Sir y Fflint ar gyfer y ganolfan ôl-16 yng Nghei Connah. Mae LICC yn awyddus i weld darpariaeth wydnach a datblygu cadarnhaol ar gyfer y dyfodol. Mae nifer o heriau sy'n gysylltiedig ag unrhyw newid o ran darpariaeth, ond mae darparwyr wedi ystyried cydweithio ar gyfer y dyfodol. Byddai maint unrhyw ddarpariaeth yn hanfodol o ran osgoi creu lleoedd dros ben ychwanegol.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Sut mae'r ganolfan yn mynd i weithio?	Caiff ei rheoli gan y llywodraethwyr a chan uwch aelodau staff. Byddai angen cytuno ar fanylion llywodraethu yn y dyfodol.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Os caiff John Summers a Chei Connah eu cyfuno, pwy fydd yn gyfrifol am gynnal yr adeilad oherwydd mae ysgol gynradd, llyfrgell a chlwb ieuenctid ar y safle o hyd?	Byddai'r Awdurdod yn gyfrifol o hyd am yr atgyweirio a'r cynnal a chadw. Byddai'r ysgolion yn cadw eu cyllidebau o hyd, a byddai cyfleusterau'r llyfrgell a'r clwb ieuenctid yn cael eu hariannu fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Beth yw'r dull o barhau i ymglymu plant?	Cynhelir ymgynghoriadau gan Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, yn ymwneud ag ysgolion yr effeithir arnynt a chwrdd â'r disgyblion. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn debyg i'r llyfryn ond yn fwy addas i'r oedran. Cyfeirir yr ymatebion i'r aelodau. Caiff pawb gyfle i ddweud ei ddweud.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei	Rhieni /Gofalwyr Disgyblion	Sylw - Cyfuno, a gallai cau dwy ysgol ac agor un peri i bynciau gael eu gwahanu rhwng yr ysgolion.	

	Connah	Ysgol Uwchradd Cei Connah		
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni /Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Beth yw'r buddion i'r disgyblion os caiff yr ysgolion eu cyfuno?	Pethau cadarnhaol ynglŷn â Chei Connah, yn cynnal canolfan ôl-16; byddai'n cynnwys lle newydd a chwricwlwm estynedig. Hefyd câi'r safle ei ailwampio.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni /Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Sylw – mae cau dwy ysgol ac agor un arall yn syniad gwael, byddai dwy ysgol fawr yno o hyd, a lleoedd dros ben, yn debyg i pan oedd Rowleys Drive gennym.	Cydnabyddiaeth o'r problemau gyda'r dewis hwn. Nid yw'r arbedion yn fawr iawn drwy gynnal dau safle o hyd. Yr unig arbedion fyddai o ran arweinyddiaeth a gweinyddiaeth.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Pwy sy'n penderfynu ar swyddi'r llywodraethwyr a'r pennaeth.	Caiff cyfuno ei weinyddu gan gorff llywodraethol dros dro sy'n cynnwys cynrychiolwyr y ddwy ysgol bresennol. Mae llywodraethwyr dros dro yn penodi'r pennaeth a'r uwch-reolwyr. Bydd y corff llywodraethol dros dro yn chwalu ar ôl y tymor cyntaf er mwyn cael eu disodli gan y corff parhaol.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	A yw'r pennaeth yn gwneud cais am y swydd?	Os bydd un pennaeth yn unig eisiau ymgymryd â'r ysgolion wedi'u cyfuno gellir gweithredu hyn gan ddau lywodraethwr dros dro. Os bydd dau bennaeth presennol yn gwneud cais, caiff y penodiad ei wneud gan y corff llywodraethol dros dro.
05/03/12	Ysgol	Rhieni/Gofalwyr	A yw cyfuno'n mynd i effeithio ar y gyfradd pasio	Mae'n rhaid bod yn hyderus bod unrhyw newid

	Uwchradd Cei Connah	Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	arholiadau? Ym 1984 aeth dwy ysgol ar chwâl oherwydd hyn.	yn wydn ac os nad yw felly, mae'n rhaid ailfeddwl. Mae'n rhoi cyfle ar gyfer gwella.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Mae gan Gei Connah ddalgylch felly gellid anfon i Benarlâg. Mae gan y ffurflenni ysgolion bwydo wedi'u hysgrifennu arnynt.	Heb gael dalgylchoedd ers amser hir, nac ysgolion bwydo.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Yn cytuno bod y chweched dosbarth yn gymysgedd wrth deithio o gwmpas ond bod y ganolfan yn syniad da ar y safle. Dim ond 10% o warged sydd gan Gei Connah, ni ddylai fod yn gyfartal o ran y penderfyniad, a chweched dosbarth digonol. A oes digon gan Benarlâg? Beth am gyfuno Penarlâg a John Summers a pheidio â thorri ar draws Cei Connah?	Bu llawer o ddatblygu ym Mhenarlâg dros y blynyddoedd; nid oes llawer o le ar gyfer ehangu. Cydnabyddir Cei Connah fel ysgol dda, yn agos i Goleg Glannau Dyfrdwy. Mae Penarlâg yn derbyn apeliadau oherwydd gordanysgrifio. Nid aethpwyd â'r dewis hwn ymlaen gan Lywodraethwyr ar gyfer Penarlâg, ond nid yw'n set gaeedig o ddewisiadau, gellir awgrymu dewisiadau eraill ac os byddant yn well ac yn wydnach cânt eu hystyried.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Pwynt – soniodd preswylydd ei fod yn anodd iawn yn yr ysgol gyda'r nos eisoes ac ni allant ddod allan o'u dreifiau.	
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Mae Cei Connah yn dref fawr; sut caiff y plant ei diogelu.	Bydd timoedd a llywodraethwyr yn sicrhau diogelu plant cyn penderfynu ar unrhyw ddewisiadau. Llwybrau mwy diogel i'r ysgol ayyb.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Sylw – Yr ysgogiad y tu ôl i Gei Connah yw cyllid gan LICC, cymerwyd y penderfyniad i fidio ar gam cynnar cyn datblygu'r dewisiadau. Mae'n rhaid i Benarlâg fod yn rhan o bethau. A yw hi wedi ei hamddiffyn yn wleidyddol?	

05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Pa mor hir a fydd yn cymryd i adeiladu'r ganolfan? Pam na all Cyngor Sir y Fflint adael dyfodol ysgolion eraill hyd nes y cânt eu hadeiladu.	Bydd datblygiad ar gyfer y 'ganolfan' yn golygu gweithio gyda thimau arwain o'r ysgolion. Bydd yr adeiladu'n digwydd yn 2013 neu yn 2015 neu hyd yn oed yn ddiweddarach, yn dibynnu ar amseriad y cyllid.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Os bydd adeiladu tai Sealand yn effeithio ar John Summers ac ar Gei Connah, beth yw sefyllfa Cei Connah wedyn?	Ystyriwyd gwaith adeiladu sylweddol. Os byddai'r holl allbwn a ragfynegwyd yn mynd i John Summers bydd gwarged o ran lleoedd o hyd.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Mae 10% o leoedd dros ben yng Nghei Connah, a ystyriwyd 400 o gartrefi Wepre?	Mae rhagamcaniadau o ran nifer disgyblion wedi ystyried hyn, ynghyd â'r cynllun datblygu lleol.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Pwynt - Cadw Cei Connah fel y mae ond yn agored i drafodaeth ynglŷn â'r ganolfan, h.y. Cei Connah a Choleg Glannau Dyfrdwy. Effeithiwyd ar ysgolion bwydo, edrychwch ar fwydwyr cynradd. Nid yw'r dewisiadau'n ymarferol ac maent yn syniad gwael.	
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Pwynt – un ardal o bryder yw disgyblion ôl-16 yn teithio i wahanol ysgolion ar gyfer addysg, mae'n gadarnhaol i gael y ganolfan fel mantais. Bydd y llywodraethwyr yn gwrthwynebu'r dewisiadau'n egnïol ond croesewir y cynigion ar gyfer y ganolfan.	
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Sut gall Cyngor Sir y Fflint gadw dwy ysgol nad ydynt yn gweddu i'r 21 ganrif?	Gall cyfuniadau dynnu cyllid ychwanegol er mwyn gwella'r lle. Mae cyllid Llywodraeth Cymru yn helpu gyda hyn ond nid oes cyllid Llywodraeth Cymru gan ddewisiadau eraill.
05/03/12	Ysgol Uwchradd	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion	Tai cyngor yn Wepre a Sealand. Bydd lleoedd ychwanegol mewn ysgolion cynradd yn rhoi	Cafodd y datblygiadau hyn eu cynnwys yn y rhagamcaniadau, mae effaith fwy sylweddol ar

	Cei Connah	Ysgol Uwchradd Cei Connah	pwysau ar gynlluniau'r uwchradd yn y dyfodol.	Sealand o Borth y Gogledd a allai effeithio ar John Summers ond serch hynny na fydd yn galluogi John Summers i fodloni meini prawf 600 o ddisgyblion 11-16 oed.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Faint o dai?	Rhagwelir 650 dros nifer o flynyddoedd, mae'r dewisiadau wedi caniatáu'r cynnydd hwn hefyd.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Pam cafodd Cei Connah ei chynnwys yn yr adolygiad fel ysgol dda?	Mae'n wir bod Cei Connah yn ysgol dda. Cynhelir adolygiadau ar sail ardal, ac mae gan Gei Connah y potensial i gael datblygiad ychwanegol sef 'canolfan' ôl-16. Ni chynhelir adolygiadau ar sail safonau.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Mae'r plant yn gofidio ac roedd merch un rhiant yn barod i eistedd mewn gefynnau llaw er mwyn gwrthwynebu. Mae hi eisiau mynd i'r chweched dosbarth yng Nghei Connah ac wedyn mynd i'r coleg. Mae hi eisiau i syniad cysylltu John Summers a Phenarlâg gael ei ystyried.	Fodd bynnag, roedd awgrymiadau cyn yr haf yn cynnwys Penarlâg, fodd bynnag mae Penarlâg yn llawn eisoes a dim ond ychydig o ddewisiadau sydd ynglŷn â sut y gellid eu hehangu. Bydd cydweithio cadarnhaol gyda choleg ac ysgol yn cynnwys gweithio a rennir gyda'r coleg, megis gyda chwaraeon a gwyddoniaeth.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Gwahanol farnau gan gynghorwyr, y gwrthwynebodd rhai ohonynt ddewisiadau a oedd yn cynnwys Cei Connah. Nid yw pwyntiau sbarduno o % gwarged yn effeithio ar Gei	Tair ysgol uwchradd gyda mwy na 30% o ran gwarged. Trafodwyd y dewisiadau wedi'u hanelu at ddatrys y problemau yn ddwys ac ailddiffiniwyd dewisiadau'r haf. Dyfeisiodd

			Connah. Mae'r rhain yn faterion ynglŷn â'r Fflint a Saltney a nifer o ysgolion cynradd. Pam na chynhwysir Ysgol Penarlâg? Lle nad oes dim problemau traffig , yn agosach at John Summers. A ydych yn fodlon edrych ar Benarlâg?	cynghorwyr yr ardaloedd lleol y dewisiadau newydd. Ni ellir datrys y gwarged yn John Summers oni bai y caiff yr ysgol ei chau. Byddwn yn edrych ar Benarlâg ynglŷn ag unrhyw ddewis, ond mae'n rhaid canolbwyntio ar broblem gwarged John Summers.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Pwynt - Cwynodd y llywodraethwyr yn unfrydol fod y dewisiadau dim ond â diddordeb yn y ganolfan ôl-16. Nid oes unrhyw fudd ar gyfer dysgwyr o dan 16 oed. Ni fydd John Summers byth yn cyflawni ei niferoedd, felly beth am fynd i Ysgol Uwchradd Penarlâg? A ddatgelwyd y set gyntaf o ddewisiadau i'r wasg gan aelod o'r Grŵp Strategaeth i Arweinwyr? Mae'n bosibl bod 1 o'r 9 aelod wedi datgelu'r wybodaeth hon.	
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Pam na chafodd Penarlâg ei chynnwys?	Ni chafodd Penarlâg ei heithrio, ni chafodd ei chyflwyno gan yr Aelodau ar gyfer ystyriaeth oherwydd ei safle cyfyngedig.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Pam nad yw atebion eraill i'r materion yn bosibilrwydd ar gyfer eu hystyried.	Roedd gan y cynghorwyr yr holl wybodaeth angenrheidiol ond os caiff unrhyw ddewisiadau eraill eu cyflwyno sy'n wydn, yna caiff y rhain eu hystyried.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Sut caiff niferoedd y disgyblion eu cyfrif ar gyfer yr ardaloedd sydd â datblygiadau newydd?	Caiff amcangyfrifon eu caffael o gynllunwyr ar gyfer ffigurau'r nifer o unedau h.y. tai mwy o faint ayyb, y fformiwla genedlaethol a gydnabyddir a'r fethodoleg a gymhwysir, sy'n caniatáu rhagamcaniadau, ond mae'r amserlen ar gyfer cwblhau yn anrhagweladwy, gallai fod nifer o

				flynyddoedd ar gyfer datblygiad mawr.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	A yw Dewis 4 yn cynnig unrhyw farnau ynglŷn â sut olwg fydd ar ysgol wedi'i chyfuno o ran effeithio ar ddysgwyr h.y. staff?	Mae cyfuno ysgol uwchradd ar safle wedi'i wahanu yn cynnig nifer o heriau ynglŷn â theithio, cwricwlwm a rheoli. Mae lles y disgyblion yn hollbwysig ac felly hefyd y flaenoriaeth i osgoi torri ar draws yr addysg. Mewn unrhyw ysgol wedi'i chyfuno, câi'r Weledigaeth ei datblygu gan y Pennaeth, y Llywodraethwyr a'r staff.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Barnau ar sut y bydd y cyfuno'n gweithio?	Rhoddir cyngor i gynghorwyr ar heriau rheoli safle wedi'i wahanu. Mae'r trefniad hwn yn gweithio yn y sector cynradd fel y dangoswyd ym Mynydd Isa, fodd bynnag mae Ysgolion Uwchradd yn darparu her ychwanegol.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Pam mae dewis 1 a 2 yn y cynnig, beth am gynyddu nifer y disgyblion sy'n mynychu?	Nid yw'r dewisiadau hyn yn mynd i'r afael â mater y gwarged o ran lleoedd. Mae hoffter rhieni'n pennu'r nifer ar y gofrestr yn yr ysgolion.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Pwynt – Mae gan John Summers tua 500 o ddisgyblion, yr effaith ar fysiau, tacsis, addysg, timau pêl-droed, effaith ar blant, goblygiadau eira.	Mae nifer y disgyblion tua 380. Byddai angen ystyried trafnidiaeth yn nhermau amser, tagfeydd, ayyb.
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	A fydd Cyngor Sir y Fflint yn ystyried dileu'r dewisiadau?	Bydd y cynghorwyr yn penderfynu ar y dewisiadau.
05/03/12	Ysgol Uwchradd	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion	Faint o ddisgyblion sydd ym Mhenarlâg?	1166 o dan 16 oed a 201 yn y chweched dosbarth, sef un o'r rhai mwyaf yn y sir.

	Cei Connah	Ysgol Uwchradd Cei Connah		
05/03/12	Ysgol Uwchradd Cei Connah	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Cei Connah	Sut fydd dewis 4 yn gweithio?	Pe bai hyn yn mynd rhagddi, byddai angen cynllun cadarn er mwyn sicrhau cysondeb darpariaeth a dulliau diogelu ar gyfer safonau.
06.03.2012	Ysgol Uwchradd John Summers	Rhieni /Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd John Summers	Cw. Yn newis 3 rydych yn dweud na fydd unrhyw newid i Ysgol Uwchradd John Summers ond mae angen ei diweddaru – e.e. yn gyfeillgar i gadeiriau olwynion	Dylid diweddaru holl ardaloedd yr ysgol sydd angen bod yn hygyrch. Fodd bynnag, dim ond symiau dangosol sydd gennym o ran y gwariant cyfalaf sydd ar gael. Bydd gwaith adeiladu newydd yn rhan o unrhyw fuddsoddiadau yn y dyfodol gyda'r dewis.
06.03.2012	Ysgol Uwchradd John Summers	Rhieni /Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd John Summers	Cw. Sut byddwch yn diogelu addysg fy nai am 5 mlynedd yn Ysgol Uwchradd John Summers.	Bydd angen i ni fod yn bwyllog ynglŷn â'r materion hyn a fydd yn golygu y bydd y newidiadau'n digwydd dros gyfnod o 5-10 mlynedd. Rydym yn deall eich pryder.
06.03.2012	Ysgol Uwchradd John Summers	Rhieni /Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd John Summers	Cw. A all Canolfan 16+ ger coleg weithio. Oni fyddai'n dileu pwrpas chweched dosbarth.	Ceir tystiolaeth bod trefniant o'r fath yn gweithio. Byddai unrhyw ddatblygiad newydd yn golygu lleihad o ran capasiti ar gyfer disgyblion ôl-16 mewn ysgolion eraill.
06.03.2012	Ysgol Uwchradd John Summers	Rhieni /Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd John Summers	Cw. Os bydd gennym ddewis 3 a fydd gennym bleidlais – beth yw'r drefn? Os caiff y penderfyniad ei roi yn ôl i Gaerdydd, a fyddant yn sylweddoli cryfder teimladau'n lleol.	Bydd y penderfyniadau cychwynnol ar gyfer Cynghorwyr Sir y Fflint. Os bydd gwrthwynebiadau i gynnig ar gyfer y dyfodol, anfonir yr holl dystiolaeth, gan gynnwys ymatebion a gwrthwynebiadau i Lywodraeth Cymru.
06.03.2012	Ysgol	Rhieni	Cw. A oes gennym ddigon o fyfyrwyr ôl-16 fel bod	Mae pobl ifanc yn teithio'n helaeth ac mae mwy

	Uwchradd John Summers	/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd John Summers	angen cyfleuster newydd arnom.	na digon o bobl ifanc yn aros ymlaen tan y chweched dosbarth oherwydd bod llai o swyddi/cyfleoedd at gyfer prentisiaethau.
06.03.2012	Ysgol Uwchradd John Summers	Rhieni /Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd John Summers	Cwestiwn gan rywun ifanc: Y rheswm yr ymunais â'r chweched dosbarth oedd, yn rhannol, oherwydd y staff cefnogol iawn. Sut bydd hyn yn effeithio ar eu swyddi?	Byddech chi'n cael gwarant cysondeb am ddwy flynedd. Rydym yn falch o'n gofal bugeiliol a dderbynnir yma. Rydym bob amser yn gweithio'n galed i gyflawni cysondeb o ran staff os oes digwydd bod unrhyw newidiadau yn yr ysgolion.
12/03/12	Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	Mae gan Ysgol Uwchradd John Summers fwy o ddisgyblion sydd ag anawsterau dysgu. Sut byddant yn cymysgu? A ellir rhoi disgyblion mewn cyfyngiad unigol?	Mae angen i bob Ysgol ddarparu ar gyfer disgyblion o bob gallu. Mae Unedau Adnoddau ar gael o fewn y Sir ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau dysgu, ni ddefnyddir cyfyngiad.
12/03/12	Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	Bydd y ddau ddewis cyntaf yn costio llawer o arian. Sut byddwch yn eu hariannu gan nad ydynt yn creu arbedion refeniw?	Gellid sicrhau rhywfaint o gyllid drwy fenthyca cynghorus. Byddai arbedion refeniw yn mynd yn ôl i mewn i'r pot cynilon corfforaethol, fodd bynnag nid yw cyllid gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynyddu costau i Gyngor Sir y Fflint.
12/03/12	Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	Porth y Gogledd - Faint o dai y disgwylir bydd yn cael eu hadeiladu? Faint o ddisgyblion fydd hyn yn eu creu?	Disgwylir i'r datblygiad greu 650 o dai (Ni wyddys am eu meintiau ar hyn o bryd) dros nifer o flynyddoedd. Byddai hyn yn cynhyrchu 195 o Ddisgyblion Cynradd a 142 o Ddisgyblion Uwchradd.
12/03/12	Canolfan Hamdden	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion	Pam na ellir ehangu Ysgol Uwchradd Penarlâg?	Ni ellir ehangu Ysgol Uwchradd Penarlâg oherwydd ei bod ar safle cyfyngedig ac ni fydd

	Glannau Dyfrdwy	Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy		Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i ysgolion ehangu oherwydd eu bod yn boblogaidd yn unig.
12/03/12	Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	Pam na allwn ni ystyried cyfuno Ysgol Uwchradd John Summers ac Ysgol Uwchradd Penarlâg, wedi'u gwahanu dros ddau safle. Mae'n bosibl y bydd hyn yn creu teimladau cadarnhaol tuag at Ysgol Uwchradd John Summers.	Os ydych yn teimlo bod hyn yn ddewis posibl, llenwch ffurflen ymateb gyda'ch cynigion a gellir mynd â hyn ymlaen fel rhan o'r ymgynghoriad.
12/03/12	Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	Os gwneir unrhyw benderfyniad ar ddyfodol yr ysgolion yn dilyn yr ymgynghoriad, a fydd wedyn yn mynd yn benderfyniad i Lywodraeth Cymru?	Bydd, felly mae'n werth treulio amser er mwyn cael yr ymgynghoriad yn iawn.
12/03/12	Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	Pe bai'r Ganolfan yn cael ei hadeiladu yng Nghei Connah, pryd caiff hon ei hadeiladu?	Cytunwyd ar gyllid gan Lywodraeth Cymru mewn egwyddor yn unig ar hyn o bryd, ac ni roddwyd unrhyw ddyddiad ar gyfer cyllid posibl.
12/03/12	Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	Os byddwch yn adeiladu Canolfan yng Nghei Connah ac yn tynnu'r ddarpariaeth chweched dosbarth o Ysgol Cei Connah, bydd hyn yn creu gwarged o ran lleoedd yng Nghei Connah. Gan na chafodd y dewis i gyfuno Ysgol Uwchradd John Summers ac Ysgol Cei Connah ei gefnogi, ni fyddai'r disgyblion o Ysgol Uwchradd John Summers yn llenwi'r ysgol.	Byddai angen i ni ystyried lleihau gwargedau o ran lleoedd yn rhywle arall gan gynnwys lleihau maint adeiladau.
12/03/12	Canolfan Hamdden	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion	A yw'n bosibl mai'r dewis yr ewch amdano yw dim newid?	Nac ydy, cafodd yr Awdurdod dri Arolygiad gan Estyn sy'n dweud bod rhaid i ni wneud rhywbeth

	Glannau Dyfrdwy	Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy		am leihau lleoedd dros ben. Os na fyddai'r Awdurdod yn cymryd unrhyw gamau gweithredu, gall y Gweinidog ymyrryd.
12/03/12	Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	Parthed dewis 3 ceir agwedd gadarnhaol gan Ysgol Uwchradd John Summers ond hoffem ychwanegu sylw ychwanegol ynglŷn â chael 1 pennaeth ac 1 corff llywodraethol ar gyfer yr ysgolion Cynradd ac Uwchradd, yn enwedig ynglŷn â'r berthynas agos sydd rhwng yr ysgolion Cynradd ac Uwchradd. Nid ymgynghorwyd â'r ysgol gynradd gan yr ysgol uwchradd felly nid oes perthynas agos.	Mae Ysgol Uwchradd John Summers yn gadarnhaol am greu perthynas sydd hyd yn oed yn agosach gyda'r ysgol gynradd. Bydd hyn yn golygu llawer o drafodaethau er mwyn ffurfio sut y bydd hyn yn gweithio, h.y. buddsoddi ac ailwampio. Mae angen i'r ddau barti gymryd rhan cyn y gall droi'n gynnig.
		Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	Cafodd Azi Rashud drafodaethau gyda'r llywodraethwyr a'r rhieni ac maent yn hoffi'r dewis cyn 16 oherwydd bod hyn yn dileu'r trawsnewid ar y campws hyd at 16 oed. Y consensws cyffredinol oedd ar gyfer rhagor o ddewisiadau. Mynegodd John Summers hoffter ynglŷn â phryderon o ran 1 pennaeth ac 1 corff llywodraethol a dewis 3 oedd yr hoff ddewis.	Mae pethau eraill i'w hystyried megis y cyfnod sylfaen yng Nghymru, o'r dosbarth meithrin i'r ysgol gynradd, sut i rannu adnoddau, cyfleusterau arbenigol cynradd ac uwchradd.
		Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	Sylw gan Bennaeth Ysgol Queensferry. Mae perthynas dda, mae'r ysgolion wastad wedi rhannu cyfleusterau ac ni allwn ragweld peidio â gweithio'n agos gyda'r ysgol uwchradd.	
		Rhieni/Gofalwyr Disgyblion	Mae Dewis 3 ynglŷn â darpariaeth 3-16 yn syniad cyffrous ond bydd yn cael effaith ar Feithrinfa'r	Pe bai'r dewis hwn yn cael ei symud ymlaen byddai angen ymgynghori â'r Croft. Bydd agor

		Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	Croft yn Shotton ac ysgolion cynradd eraill ynglŷn â materion trawsnewid.	meithrinfa yn Queensferry yn cael effaith ar niferoedd. Dim ond dwy ysgol gynradd sydd heb feithrinfeydd a bydd angen ystyried gofal plant ychwanegol yn yr ardal hon yn ei gyfanrwydd.
		Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	Dewis 3 - dim newid i'r adeilad presennol ond mae'n datgan bod angen ailfodelu'r ysgol gynradd. Pan na ellir cyfuno dewisiadau?	Mae angen buddsoddiad yn Ysgol Uwchradd John Summers oherwydd bod y rhain yn hen adeiladau. Mae dewis 3 yn annhebygol oni bai y cynhelir ailfodelu.
		Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	Pam nad yw Penarlâg yn cael ei hystyried? Clywsom y câi ei ystyried yng nghyfarfodydd blaenorol ond y mater gyda Phenarlâg yw nid yw hyn yn debygol, er y dywedwyd y byddai felly. Beth sydd wedi digwydd ers hynny?	Gellir ychwanegu unrhyw ddewis neu farn arall i'r draodaeth ar gyfer ymgynghori gydag achos da y tu ôl iddynt, mae'n rhaid ystyried hyn o hyd. NS – Ystyrir Penarlâg. Mae gan Ysgol Uwchradd John Summers hwb mawr ar gyfer opsiwn 3.
		Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	Dywedwyd wrth Feithrinfa'r Croft gan yr AALl nad yw'n effeithio arnynt ond nid yw hynny wedi dod i'r amlwg yn nhrafodaeth heno. Mae angen i bobl fod yn ymwybodol. Prif fater Cei Connah yw Dewis 4 ac mae datganiad i'r wasg NS yn teimlo'r angen am gyfuno, os oes meddwl am ddileu Dewis 4 gall pobl heno fynd adref.	Pe bai Dewis 3 yn cael ei ddatblygu byddai'n cael effaith ond bydd angen ymgynghoriadau ar wahân gyda'r Croft. Cydnabyddir na chefnogir Dewis 4 ond yn dechnegol mae'n rhaid ymgynghori arno oherwydd y cafodd ei roi gerbron gan yr Aelodau.
		Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgolion Consortiwm	Sylw – roedd Sealand ar ei cholled eto, mae'n ysgol dda ac efallai bydd effaith niweidiol ar Sealand. Copïodd y pennaeth y llythyr i'r rhieni ac roeddent yn edifarhau eu bod wedi colli	Anfonwyd llyfrynnau allan i bob ysgol gan gynnwys Sealand. Nid oedd bwriad o ddarparu llyfrynnau ar gyfer pob rhiant ond byddai rhagor yn cael eu hanfon yn ôl yr angen.

		Glannau Dyfrdwy	dosbarthiad y llyfrynnau.	
		Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	O ran Dewis 3 ar gyfer 16-18 yng Nghei Connah, a fydd rhaid i ddisgyblion aros yn yr ysgol? A fydd rhaid i ddisgyblion John Summers fynd i ganolfan ôl-16 Cei Connah? A fydd gan John Summers y dewis o hyd?	Na fydd, yn nhermau aros tan 18 oed nid oes unrhyw gynnig i wneud newidiad statudol. Ar hyn o bryd mae 97.2% o'r disgyblion 16-18 oed yn aros ar gyfer y chweched dosbarth, y coleg neu brentisiaeth. Mae rheoliadau derbyniadau'n golygu y gall rhieni fynegi hoffter o ran o dan 16 oed. Mae gan fyfyrwyr ôl-16 y dewis o fynychu unrhyw ddarpariaeth addas. Ar hyn o bryd mae myfyrwyr yn cael mynediad at rywfaint o ddarpariaeth ôl-16 yn rhywle arall.
		Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	A yw'r ganolfan ôl-16 yn cael ei datblygu ar gyfer yr ardal leol yn unig neu ar gyfer y ddarpariaeth chweched dosbarth gyfan? Gallai hyn effeithio ar benderfyniad rhieni.	Mae eisoes cydweithio yn 14-16 ac ôl-16 rhwng ysgolion a Choleg Glannau Dyfrdwy. Gan fod safle Cei Connah yn agos i safle'r Coleg mae'n rhoi'r potensial ar gyfer datblygu yn y dyfodol o ran darparu amrywiaeth o ddewisiadau ar gyfer pobl ifanc, a lleihad o ran teithio rhwng canolfannau er mwyn cael mynediad at y cynnig cwricwlaidd cyfan. Byddai'r dewis yn ffurfio crynhoad o ran darpariaeth yng Nghei Connah ar gyfer ardal leol Glannau Dyfrdwy.
		Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	Sylw – gallai Canolfan Cei Connah ganolbwyntio ar addysg ôl-16 ac mae adeilad modern yn gam pwysig ymlaen.	
		Rhieni/Gofalwyr	Sylw – O ran y Ganolfan ôl-16 ar gyfer plant,	

		Disgyblion Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	dyma'r dewis gorau a ffafrir gan bobl, ond byddai gan drethdalwyr bryderon ynglŷn â pha mor agos yw hyn at y coleg.	
		Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	O ran Dewis 3 sut rhoddir cymorth i blant integreiddio?	O ran y camau cynradd ac uwchradd, byddai adrannau ar wahân i ffwrdd o'i gilydd. Byddai angen trefniadau trawsnewid gofalus rhwng y plant cynradd ac uwchradd. Gellid gwahodd teuluoedd i ddod i adnabod yr ysgol yn well gyda gwybodaeth fanwl er mwyn trawsnewid llyfn trwy'r ysgol.
		Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	Gwarged yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy er mwyn cymryd y disgyblion 16-18 hynny? Wedyn gellir arbed arian ar gyfer Ysgol Uwchradd John Summers neu Ysgol Uwchradd Cei Connah.	Mae gan y coleg gyfleusterau nad oes gan yr ysgol. Mae'n ymarferol y gallai'r Coleg ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol. Mae hyn yn defnyddio'r ffaith bod gwarged digonol i gynnal yr holl ddisgyblion 16-18 oed yn y Coleg.
		Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	Sylw – A gafodd bylchau eu nodi ac a wneir y defnydd gorau o gyllid ar ôl nodi ble mae'r diffyg.	
		Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	Pryder – mae cartrefi yn Sealand yn cael eu hadeiladu, caiff lleoedd dros ben eu llenwi, a fydd hyn yn gorffen gyda sefyllfa i'r gwrthwyneb?	Mae prosiectau'n ystyried hyn a bydd nifer o flynyddoedd cyn i'r datblygiad gael ei gwblhau. Serch hynny, ni fyddai'r allbwn rhagamcanedig yn llenwi'r gwarged.
		Rhieni/Gofalwyr	Mae'r Ganolfan wedi denu arian gan Lywodraeth	Ydynt. Byddwn yn gofyn i bobl ifanc am eu

		Disgyblion Ysgolion Consortiwm Glannau Dyfrdwy	Cymru, a yw disgyblion wedi cymryd rhan?	barnau. Amserlennir cam ychwanegol o ymgynghoriadau gyda phlant a phobl ifanc, a gaiff ei gydlynu gan y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.